NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Dyfeisiau ECG Lîd-I ar gyfer canfod ffibriliad atrïaidd symptomatig gan ddefnyddio profion ar un adeg ym maes gofal sylfaenol

8 Mai 2019

Mae NICE wedi asesu dyfeisiau electrocardiogram (ECG) lîd-I (imPulse, Kardia Mobile, MyDiagnostick a Zenicor ECG) er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn.

Dywedodd NICE nad oes digon o dystiolaeth i argymell defnyddio'r profion hyn yn rheolaidd yn y GIG fel profion untro ar gyfer pobl â symptomau ffibriliad atrïaidd ym maes gofal sylfaenol. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil i nodi pa mor dda y mae'r dyfeisiau hyn yn gweithio a sut y byddent yn cael eu defnyddio.

Gall dyfeisiau ECG lîd-I ganfod ffibriliad atrïaidd mewn pobl sydd ag arwyddion neu symptomau'r cyflwr a phwls afreolaidd. Mae'r dyfeisiau hyn yn cofnodi ECG ar un adeg ac yn defnyddio meddalwedd awtomataidd er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau.

ISBN: 978-1-4731-3401-0



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.